

Plas Mawr Pecyn Adnoddau Addysg

CA2

Hanes: Y Tuduria



Cyflwyniad

Nod y pecyn hwn yw helpu athrawon i gynnal ymweliadau hunan-dywys mewn ffordd greadigol, hyderus a llawn dychymyg. Mae'r gweithgareddau a awgrymir yn hyblyg a gellir eu cynnal mewn nifer o ffyrdd. Anogwn athrawon i ddewis ac addasu'r deunydd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y pwnc a'r grŵp blwyddyn.

Trefnu ymweliad

Wyddech chi fod ymweliadau hunan-dywys â safleoedd Cadw am ddim i grwpiau addysg sy'n mynychu sefydliadau addysg yn yr Undeb Ewropeaidd?

I drefnu eich ymweliad am ddim, dilynwch y camau syml hyn:

- Trefnwch eich ymweliad o leiaf 5 diwrnod gwaith o flaen llaw.
- Ffoniwch y safle i holi a yw ar gael ar y dyddiad yr hoffech ymweld.
- Unwaith y byddwch wedi cytuno ar ddyddiad ac amser gyda'r safle, llenwch y ffurflen archebu ar-lein www.cadw.cymru.gov.uk/learning

Rydym hefyd yn cynnig gweithgareddau addysg rhyngweithiol sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm mewn rhai safleoedd.




Iechyd a Diogelwch

Mae athrawon ac arweinwyr grŵp yn gyfrifol am wneud asesiad risg cyn yr ymweliad, yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan awdurdodau addysg lleol. Rydym yn cynnig ymweliadau ymgyfarwyddo am ddim i athrawon i'w galluogi i ysgrifennu'r asesiadau risg a chynllunio gweithgareddau cyn dod â grŵp i'r safle. Mae'r tudalennau dysgu ar wefan Cadw yn cynnig cyngor ar gynllunio eich ymweliad a gwybodaeth benodol am y safle.



Y Neuadd

Yn y neuadd mae'r daith o amgylch y tŷ yn cychwyn. Nid prif stafell fyw y teulu oedd y neuadd, ond lle i dderbyn ymwelwyr a lle i'r gweision fwyta.



Mae arfbais Robert Wynn i'w gweld yn y gwaith plastr uwchben y lle tân.

Allwch chi geisio copio'r manylion?

Pa bethau eraill allwch chi eu gweld?	Pwy fyddai wedi defnyddio'r rhain?



Llenwch y bylchau:

Robert _____ oedd trydydd mab Syr John Wynn o Wedir. Pan oedd yn ddyn ifanc, bu'n gweithio fel stiward i Syr _____ oedd yn ddiplomydd. Aeth i'r llysoedd mawr yn _____.

Daeth yn ôl i'r Gogledd ym 1555 a phriododd â Dorothy _____. Dechreuodd adeiladu Plas Mawr ym 1576 a chafodd y tŷ ei orffen ym _____. Pan fu farw Dorothy, fe briododd e eto, â dynes o'r enw Dorothy Dymock ac fe gawson nhw _____

o blant. Bu farw Robert ym 1589 a chafodd ei gladdu mewn bedd gwyh yn eglwys

y _____ yng Nghonwy.

Griffiths	Philip Holby	saith	1585
Wynn	Ewrop	Santes Fair	




Beth yn eich barn chi oedd diben y bocs uwchben y bwrdd?



Y Gegin


Mae'r gegin wedi cael ei sefydlu fel y byddai wedi bod pan yr oedd yn cael ei ddefnyddio yn amser y Tuduriaid, ac mae gan un teimlad bod staff newydd popped allan a bydd yn dod yn ôl unrhyw munud.

Allwch chi enwi pum math o fwyd sydd i'w gweld ar y bwrdd?



Allwch chi orffen y llun?

Sut oedden nhw'n coginio'r bwyd, yn eich barn chi?



Y Siambr uwchben y Parlwr

Rydyn ni'n credu mai siambr wely Dorothy oedd y stafell yma. Ar yr adeg yma, nid at gysgu yn unig roedd llofft yn cael ei defnyddio, ond hefyd at eistedd a gwisgo, a hyd yn oed at fwyta'n anffurfiol.

“Good night, sleep tight”. Dyma ymadrodd cyffredin yn Saesneg. Gofynnwch i athro, athrawes neu stiward y stafell am ganiatâd i un ohonoch chi edrych o dan y matras. Ar ôl iddyn nhw ddweud beth welson nhw, atebwch y cwestiwn yma:

Pam oedden nhw'n dweud “sleep tight?”



Mae'r stafell yma'n cynnwys llawer o wrthrychau a fyddai'n helpu Dorothy i gadw'n gynnes. Allwch chi weld dau ohonyn nhw, tynnu eu llun a dweud beth oedd eu henwau nhw?

Gwrthrych 1


Gwrthrych 2

Y Siambr Fawr

Y Siambr Fawr yw'r enw ar y stafell yma. Dyma ble byddai Robert yn diddanu ei westeion pwysig.

Yn y stafell yma y mae'r gwaith plastr mwyaf cywrain.

Allwch chi ddewis eich hoff gylch plastr chi a chopïo'r dyluniad?




Ewch at y prif fwrdd. Yn y petryal isod, allwch chi dynnu llun rhai o'r pethau roedd Robert a'i deulu yn eu defnyddio wrth fwyta?

Roedd yn bwysig bod Robert yn dangos i'w westeion ei fod yn parchu'r Frenhines Elizabeth yn fawr. Uwchben y lle tân mae yna dri darn o waith plastr i ddangos hyn.

Allwch chi ysgrifennu beth ydyn nhw?

1. _____
2. _____
3. _____



Wyddech chi n na ddaeth ffyrç i Brydain tan 1620!
A bod y byddigion yn gwisgo menig i fwyta!

Defnyddiwch y tudalen yma i ysgrifennu neu i dynnu llun unrhyw beth arall sydd o ddiddordeb.